

Model Tai Gofal Ychwanegol 2020

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	3
Datganiad Cenhadaeth	5
Amcanion o ran Dyheadau	6
Proses Ymgeisio, Asesu a Dyrannu	7
Ymgeisio	7
Darparu Gofal a Chymorth	8
Ceisiadau Cymorth Rheoli / Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Tai	9
Rheoli Tai	9
Rheoli Cyfleusterau	9
Gwasanaethau cymorth a chadw tŷ	10
Gwasanaethau Gofal	10
Cefnogaeth Ariannol	11
Cymorth Lles / Cynhwysiant / Gweithgaredd	11
Seibiant ar y Safle ac / neu Gyfleoedd Cymorth Ail-alluogi	11
Cwestiynau Cyffredin	12

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Cyflwyniad

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig llety mewn datblygiadau o gartrefi hunangynhwysol gyda nodweddion dylunio a gwasanaethau cymorth ar gael i alluogi hunanofal a byw'n annibynnol. Mae'n caniatáu dinasyddion i gynnal a, lle bo modd, cynyddu eu hannibyniaeth. Mae datblygiadau wedi eu cynllunio a'u lleoli yng nghalon y gymdogaeth leol gan gydnabod pwysigrwydd cynnal a datblygu cysylltiadau cymunedol cryf.

Mae darparu gofalwyr ar y safle yn caniatáu darparu cefnogaeth gyda'r person yn ganolog, yn canolbwyntio ar ail-alluogi -“ei wneud gyda, nid ei wneud dros” - sydd yn ei dro'n caniatáu unigolion i aros mor annibynnol â phosibl am hirach.

Mae teimlo'n saff a diogel yn ganolog i allu unigolyn i aros yn annibynnol. Bydd systemau mynediad diogel i bob adeilad o fewn y cynllun. Mae'r holl staff sy'n gweithio yn y cynlluniau yn cefnogi unigolion i gynyddu a chynnal y nodwedd hanfodol hon.

Ar y cyfan, mae'r Gwasanaethau'n cynnwys staff ar y safle 24 awr, darparu prydau arddull bwyty yn ddyddiol, offer larwm personol a mynediad i sawl ardal gymunedol.

Gweithredir pob cynllun cyfredol yn Sir Ddinbych mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae gan bob cynllun ei hunaniaeth a'i ddulliau gweithio unigol. Dylid cyfeirio at bolisiâu a gweithdrefnau cynlluniau unigol a weithredir yn ystod y broses ymgeisio mewn perthynas â cheisiadau i'w cynlluniau unigol e.e. polisi anifeiliaid anwes, ceisiadau trawsffiniol ac ati. Darperir y gofal a'r gefnogaeth ar y safle o fewn cynlluniau cyfredol Sir Ddinbych gan staff gofal a chefnogaeth mewnol Cyngor Sir Ddinbych.

Yn unol â datganiad o ddiben gwasanaeth gofal cartref CSDd, nod y darparwr gofal yw:

- Cefnogi unigolion i fod yn iach yn gorfforol, meddyliol ac emosiynol mewn amgylchedd diogel.
- Hyrwyddo annibyniaeth ac annog unigolion i fod mor annibynnol â phosibl.
- Darparu dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyflawnir hyn drwy drafodaethau gyda dinasyddion ac/ neu deulu a chynrychiolwyr i sicrhau canlyniadau gyda ffocws unigol.
- Sicrhau cysur a lles pobl a monitro eu hanghenion yn briodol.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

- Darparu cefnogaeth lle bo angen gyda thasgau byw o ddydd i ddydd, yn unol â chynllun gofal unigol wedi'i ganolbwyntio ar y person.
- Cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau yn eu hardal leol.
- Cefnogi unrhyw anghenion crefyddol neu ysbrydol a nodir.

Y cynllun Tai Gofal Ychwanegol cyntaf yng Ngogledd Cymru oedd cynllun Sir Ddinbych yn y Rhyl, Gorwel Newydd, a ddatblygwyd yn 2009 mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn, wedi'i leoli ar bromenâd y Rhyl.

Ar hyn o bryd mae tri chynllun wedi'u sefydlu ac un yn cael ei ddatblygu yn Sir Ddinbych;

- Gorwel Newydd, y Rhyl; 59 fflat, 30 x 2 ystafell wely a 29 x 1 ystafell wely.
- Nant y Môr, Prestatyn; 59 fflat, 32 x 2 ystafell wely a 27 x 1 ystafell wely.
- Llys Awelon, Rhuthun; 21 fflat, 18 x 2 ystafell wely a 3 x 1 ystafell wely gyda gwaith adeiladu cam 2 wedi'i gynllunio i godi 35 uned arall y rhagwelir fydd wedi'i gwblhau erbyn 2022.
- Awel y Dyffryn, Dinbych; gwaith adeiladu ar y gweill i ddarparu cynllun sy'n cynnwys tua 66 o fflatiau Gofal Ychwanegol un / dwy ystafell wely ynghyd â llety sy'n cefnogi unigolion gydag anabledau dysgu a chorfforol

Rydym yn archwilio cyfleoedd i ehangu ein darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ne'r sir.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Datganiad Cenhadaeth

Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych yw'r cysyniad tai â chymorth arloesol y gellir ei weld yn aml fel dewis arall yn lle gofal preswyl. Y nod yw cefnogi unigolion sy'n dymuno aros yn annibynnol ac mewn rheolaeth o'u bywydau eu hunain am gyhyd â phosibl mewn amgylchedd sy'n tynnu ynghyd gofal a chymorth ac amwynderau tai.

Ein nod yw cynyddu'r cyfle i bawb sy'n byw mewn cynllun i ffynnu, parhau i fod yn egniïol, meithrin perthnasoedd newydd yn eu lleoliad cymunedol newydd a byw mor annibynnol a bo modd am gyhyd â phosibl.

Mae Tai Gofal Ychwanegol a'i ddyheadau yn allweddol i gefnogi Pum Awgrym Llesol (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2008);

- **Cysylltu** – gyda phobl o'ch cwmpas chi. Gyda theulu a ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion.
- **Bod yn Egniïol** - Mae bod yn egniïol yn gorfforol yn gwella iechyd corfforol a gall wella hwyliau a lles a gostwng straen, iselder a gorbryder.
- **Rhoi** – gall cyflawni gweithredoedd caredig, bach neu fawr wella hapusrwydd, bodlonrwydd bywyd ac ymdeimlad cyffredinol o les.
- **Parhau i Ddysgu** – rhoi cynnig ar rywbeth newydd, ailddarganfod hen ddiddordeb, cymryd diddordeb mewn rhywbeth newydd – mae pob un o'r rhain yn ysgogi'r ymennydd mewn modd cadarnhaol.
- **Cymryd Sylw** – mae dal sylw yn y presennol, a meddyliau a theimladau a'r amgylchfyd, yn hybu ein lles.

Gwasanaethau penodol a meysydd allweddol megis – cael prydau ar y safle, pecynnau gofal, rhaglen o weithgareddau ynghyd â chynlluniau ymgysylltu â'r gymuned ac integreiddio, fydd ein mesur fod Tai Gofal Ychwanegol yn cyflawni ei ganlyniadau bwriedig.

Bydd y meysydd hyn yn rhan o'n mesur o lwyddiant ar gyfer cynlluniau unigol a'r gwasanaethau maent yn eu darparu gyda'r bwriad o ddysgu a thyfu o arferion da ar draws yr holl gynlluniau.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Amcanion o ran Dyheadau

Byddwn, gyda phartneriaid, yn ceisio sicrhau fod cynlluniau newydd a phresennol yn ceisio bod y gorau y gallant drwy wella neu addasu gwasanaethau lle bo angen a sicrhau fod unigolion sy'n byw mewn cynllun a'r gymuned leol yn elwa ar y buddion.

Gall gweithgareddau, digwyddiadau a chynulladau gynnig platfform i unigolion rwydweithio, ffurfio cyfeillgarwch a gwella eu lles meddyliol a chorfforol cyffredinol. Disgwyliwn i gynlluniau yn Sir Ddinbych hwyluso o leiaf un digwyddiad neu weithgaredd yr wythnos a byddant yn gwahodd y gymuned leol yn rheolaidd i gymryd rhan a magu'r cysylltiadau hanfodol hynny.

Mae gwella iechyd pobl a chadw'n iawn yn agwedd hanfodol ar y gefnogaeth sydd ar gael mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol. Rydym yn cydnabod y gall baglu a syrthio gael effaith ddinistriol a gwanychol ar bobl o bob oed. Byddwn yn mesur ac yn cofnodi data syrthiadau tra'n ceisio sicrhau bod cefnogaeth a gwybodaeth ar gael yn eang i unigolion er mwyn lleihau'r perygl.

Gall arolygon o'r cynllun fod yn ganolog drwy ddarparu data ansoddol a meintiol a gwybodaeth sy'n cefnogi'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth allai fod angen ei wella, y bwriad yw y bydd unrhyw arolwg blynyddol yn rhan o'r gwaith hwn a bydd canfyddiadau o hyn yn cael eu rhannu gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

Gellir darparu tystiolaeth o ddangosyddion allweddol fod gennym y galw a'r broses ar gyfer ceisio am dai gofal ychwanegol yn iawn mewn manylion o'r fath e.e. lleoedd gwag / eiddo anodd eu gosod, byddwn yn ceisio cofnodi a chwrdd â phartneriaid lle bo angen er mwyn archwilio datrysiadau / camau gweithredu fel bo angen.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Proses Ymgeisio, Asesu a Dyrannu

Ymgeisio

Mae Tai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych yn gweithredu meini prawf cymhwys y mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio am y cynlluniau hyn eu cwrdd.

Meini Prawf Cymhwys

Mae Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi amlinellu meini prawf cymhwys ar gyfer ceisiadau i gynlluniau tai gofal ychwanegol. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i'w cynnwys yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cymdeithas Tai

- Rhaid i ymgeiswyr fod dros 60 oed a rhoddir ffafriaeth i drigolion Sir Ddinbych. Fodd bynnag, bydd unigolion sy'n o leiaf 55 oed yn cael eu hystyried os oes ganddynt gyflwr neu anabledd sydd wedi bod yno drwy eu hoes.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi cael eu hasesu gan swyddog gofal cymdeithasol o CSDd a bod ganddynt lefel o anghenion sy'n golygu fod perygl sylweddol y byddant yn colli eu gallu i fyw'n annibynnol
- Rhoddir blaenoriaeth i unigolion cymwys gyda'r lefel mwyaf priodol o angen wrth ddyrannu llety.

Mae Tai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych yn gweithredu meini prawf cymhwys y mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio am y cynlluniau hyn eu cwrdd.

Bydd landlord pob cynllun yn dilyn proses mewn perthynas â phob cais. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn aml ymweliad cartref gan gynrychiolwyr y cynllun i gyfeiriad presennol yr ymgeisydd er mwyn i'r cais fynd yn ei flaen. Mae hwn yn gyfle i sicrhau fod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y cais am dŷ yn gyflawn ac y deallir yr holl wybodaeth am wasanaethau a disgwyliadau Tai Gofal Ychwanegol yn llawn.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Asesiad

Bydd angen i ymarferwyr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych ac/ neu staff y landlord tai gael "sgwrs", h.y. trafodaeth ystyrion sy'n nodi'n glir yr angen am Dai Gofal Ychwanegol a chanlyniadau a gytunir arnynt ar gyfer unigolion.

Dyraniadau

Bydd panel dyraniadau sy'n cynnwys ymarferwyr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych, staff y cynllun tai a chynrychiolwyr lechyd yn cwrdd yn rheolaidd i brosesu ceisiadau a lle bo hynny'n briodol, yn dyrannu llety o fewn y cynllun.

Darparu Gofal a Chymorth

Bydd Gofal a Chymorth yn cael ei ddarparu i unigolion sy'n byw yn y cynlluniau Gofal Ychwanegol yn unol â'u cynllun gofal a chymorth gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a'r unigolyn. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn annog yr unigolion hynny i ddefnyddio'r darparwr Gofal a Chymorth ar y safle ar gyfer y cynllun maent yn byw ynddo. Fodd bynnag, gall unigolion ddewis defnyddio darparwr amgen / presennol ac efallai fod ganddo drefniant preifat gydag asiantaeth annibynnol i ddarparu unrhyw lefel o ofal a chefnogaeth sydd ei heisiau arnynt. Fodd bynnag, byddai hyn ond yn cael ei gytuno drwy gyllideb gymorth ar gyfer anghenion gofal a aseswyd.

Gall staff cymorth ar y safle hefyd ddarparu gofal a chymorth mewn argyfwng mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft pan gaiff ei gychwyn gan y "system larwm" o fflatiau unigol neu o fewn yr adeilad. Os oes angen, efallai y bydd angen iddynt gynnwys gwasanaethau eraill e.e. lechyd, therapyddion galwedigaethol.

Lle bo angen y lefel hwn o gymorth am fwy na 3 diwrnod yn olynol neu os oes patrwm rheolaidd o ofal a chymorth heb ei drefnu, gwneir atgyfeiriad am asesiad o'r angen am gynllun gofal a chymorth ffurfiol. Bydd prosesau codi tâl yn cael eu sefydlu gan y darparwr gofal erbyn y 5ed diwrnod.

Bydd angen 7 diwrnod o rybudd cyn gwneud unrhyw newidiadau i ofal a chymorth a gynlluniwyd, lle bo modd. Mae lefelau staff gofal a chymorth yn cael eu hadolygu bob dydd

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

i sicrhau y darperir cymorth priodol. Yn ddelfrydol, bydd angen 24 awr o rybudd os y caiff gofal a chymorth a gynlluniwyd ei ganslo er mwyn osgoi parhau i godi tâl am hyn.

Bydd Gofal a Chymorth yn cael ei ddarparu yn unol â chanllawiau statudol, deddfwriaeth a rheoliadau ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych.

Bydd cynlluniau Sir Ddinbych yn gwneud defnydd ymarferol o gymorth gan Dimau Adnoddau Cymunedol, gan gynnwys cymorth arbenigol megis e.e. gweithwyr cymorth dementia, llyw-wyr cymunedol, aseswyr gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol.

Ceisiadau Cymorth Rheoli / Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Tai

Gan weithio gyda landlordiaid, mae Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio ehangu'r ystod o wasanaethau a gynigir.

Rheoli Tai

Gwasanaethau Presennol

- Atgyweirio a chynnal a chadw / cymorth tu allan i oriau swyddfa
- Casglu rhenti a thaliadau gwasanaeth.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda deiliaid tenantiaeth.
- Adroddiadau perfformiad/ gosodiadau / tenantiaethau.
- Cymorth cyffredinol rheolwr y cynllun.

Rheoli Cyfleusterau

Gwasanaethau Presennol

- Glanhau ffenestri, garddio a chynnal tiroedd.
- Glanhau ardaloedd cymunedol.
- Iechyd a Diogelwch gan gynnwys gweithdrefnau tân.

Dyheadau'r gwasanaeth

- Gwasanaethau ymolchi cymunedol.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Gwasanaethau cymorth a chadw tŷ

Gwasanaethau Presennol

- Darparu pryd ffres, wedi'i baratoi ar y safle yn ddyddiol.
- Cyngor a gwybodaeth am faeth.
- Lle nodir hynny yn y cynllun cymorth, bydd cymorth yn cael ei ddarparu mor gyfrinachol â phosibl.
- Gellir prynu prydau ychwanegol gan yr arlwywr ar y safle yn dibynnu ar gapasiti pob cynllun a darparwr.
- Gallai Caffi / clybiau brechwast a chyfleoedd tebyg eraill gael eu cynnig fesul cynllun / landlord unigol.

Dyheadau'r gwasanaeth

- Cydlynedd gweithgareddau / lles / swyddog cynhwysiant mewn cydweithrediad â'r darparwr gofal.
- Cefnogaeth gyda rheolaeth ariannol yn erbyn cynllun a gytunwyd arno drwy gymorth yn ymwneud â thai.
- Hwyluso grwpiau cymdeithasol tenantiaid / cyfeillion e.e. ar gyfer garddio / siopa.
- Telefedygaeth – darpariaeth i ymyriadau iechyd ar y safle.

Gwasanaethau Gofal

Gwasanaethau Presennol

- Ystod llawn o ofal personol gan gynnwys gofal dwy law yn y nôs, gofal a chymorth ymatebol.
- Gwiriadau lles / gwasanaeth cadw golwg "Dwi'n iawn" – i'r dinasyddion hynny sydd wedi ymuno ynddynt.

Dyheadau'r gwasanaeth

- Gweithgareddau dydd arbenigol, cymorth i baratoi prydau
- Hwrwyddo annibyniaeth ac atal codymau drwy ddefnyddio cyfarpar codi / symud, cymhorthion ac addasiadau.
- Ymarferion therapi.
- Gofal Dementia.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Cefnogaeth Ariannol

Nid yw staff gofal a chymorth Tai Gofal Ychwanegol yn gallu cynnig cymorth i reoli cyllid i denantiaid unigol.

Ni fyddwn yn gallu cadw arian nac eitemau gwerthfawr, cardiau credyd a debyd ac ati.

Lle bo sefyllfaoedd yn codi a bod angen cymorth, mae staff tai a gofal a chymorth yn gallu rhannu gwybodaeth, cyfeirio ac/ neu atgyfeirio unigolion at sefydliad lleol sy'n gallu eu cynorthwyo lle bo hynny'n briodol e.e. Hawliau lles, cyngor ar ddyledion, gosod cyllideb.

Cymorth Lles / Cynhwysiant / Gweithgaredd

Profwyd fod aros yn egnïol, gwybodus a chysylltiedig ag eraill yn gwella bywydau, yn cynnig pwrpas a chyfeiriad a gwella lles cyffredinol.

Rydym yn cydnabod y gall unrhyw un, mewn unrhyw leoliad fod yn unig a chael eu hynysu. Ein bwriad yw y bydd unrhyw un sy'n byw mewn cynllun ac eisio aros yn egnïol, yn iach a dilyn eu diddordebau yn gallu gwneud hynny. Gall hyn fod ar sawl ffurf o weithgareddau a digwyddiadau grŵp a gynlluniwyd, i sesiynau ymgysylltu un i un.

Seibiant ar y Safle ac / neu Gyfleoedd Cymorth Ail-alluogi

Bydd cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych yn ceisio cefnogi adsefydlu, seibiant a rhyddhau i asesu gyda mynediad i fflatiau hunangynhwysol ar gyfer seibiant a chymorth ystafelloedd gwesteion ar gyfer seibiant i ofalwyr. Mae hyn yn cefnogi ein blaenoriaethau ehangach gan gynnwys cymorth i ofalwyr a gwaith cydweithredol ac arloesol gyda'r bwrdd iechyd lleol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn prydlesu fflatiau hunangynhwysol o fewn rhai o'r Cynlluniau Gofal Ychwanegol, bwriad hyn yw;

- Cefnogi unigolion sydd ag anghenion mwy cymhleth ac yn annhebyg o gael eu hystyried yn ddiogel i gwblhau tasgau dyddiol yn eu cartref eu hun.
- Darparu ymyrraeth byrdymor (hyd at bythefnos) i gynyddu hyder a hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau byw o ddydd i ddydd, help i ail-gyfarparu unigolion gyda'r sgiliau sydd eu hangen i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Ni chodir unrhyw dâl am yr ymyrraeth gefnogi ond codir tâl am y prydau a'r cyfleusterau a ddefnyddir.

- Darparu cymorth byrdymor (wythnos neu ddwy) i unigolion y gofalir amdanynt yn y cartref. Mae hyn yn galluogi gofalwyr i gael saib neu adfer os ydynt yn sâl eu hunain. Fel arall, gall y gofalwr a'r sawl y gofelir amdanynt aros.

Cwestiynau Cyffredin

- C:** Mae gan fy mam arwyddion cynnar o Dementia. All hi symud i Dŷ Gofal Ychwanegol?

A: Gall pobl gyda Dementia fyw mewn Tai Gofal Ychwanegol. Fel rhan o asesiad pob unigolyn, ystyrir pob cyflwr iechyd. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion gofal a chymorth cyn y gwneir unrhyw gynnig iddynt.
- C:** Dydi fy ngŵr ddim yn dda. Ydych chi'n ystyried ceisiadau gan gyplau sydd eisiau symud i Dai Gofal Ychwanegol gyda'i gilydd?

A: Ydym. Mae yna fflatiau 2 ystafell wely sy'n ddelfrydol ar gyfer cyplau. Wrth asesu addasrwydd cyplau sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol, byddem yn asesu anghenion y ddau ohonynt.
- C:** Sut ydych chi'n blaenoriaethu'r bobl ar y rhestr aros?

A: Pan fod lle'n dod yn wag, rhoddir ystyriaeth i bawb ar y rhestr aros. Bydd yr eiddo'n cael ei gynnig i bwy bynnag yr ystyrir, pan ddaw'r lle'n wag, i fod â'r anghenion mwyaf. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw gynnydd yn y perygl y bydd unigolyn yn colli eu hannibyniaeth ac/ neu gynyddu lefel y cymorth sydd ei angen, os byddant yn aros yn eu llety presennol.
- C:** A fydd staff gofal a chymorth yn fy nghefnogi gyda meddyginiaeth?

A: Rhaid i ddarparwyr gofal ar y safle gadw at reoliadau cartrefi. Gall staff gofal a chymorth eich hatgoffa neu eich goruchwylio wrth gymryd eich meddyginiaeth, os y cytunwyd ar hynny a bod cofnod o'r angen hwnnw yn eich cynllun gofal a'ch bod eisoes yn derbyn gofal a chymorth ar yr adeg y mae angen i chi gymryd eich meddyginiaeth. Ni all staff gofal a chymorth gefnogi os mai'r unig angen a nodwyd yw atgoffa / goruchwylio meddyginiaeth. Os na allwch chi gymryd eich meddyginiaeth yn annibynnol neu fod angen mwy o gefnogaeth arnoch na atgoffa neu oruchwyliaeth, bydd angen i chi gysylltu â'ch meddyg neu eich fferylllydd. Nid yw'r swyddfa gofal a chymorth yn gallu derbyn cyflenwad o'ch presgripsiwn.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

Bydd angen i chi wneud trefniadau gyda'ch fferyllydd ar gyfer yr amser / diwrnod dosbarthu sy'n addas i dderbyn cyflenwadau drosoch eich hun. Yr unig eithriad i hyn fydd os y cofnodir hyn ar eich cynllun gofal gan yr Ymarferydd Arweiniol gyda rheswm pam a ble y caiff y feddyginiaeth ei storio.

5. **C:** Allaf i brynu fflat?

A: Na allwch. Mae'r fflatiau ond ar gael i'w rhentu.

6. **C:** A oes rhaid i mi dalu am bryd os nad wyf ei eisiau?

A: Oes. Mae'r gwasanaeth prydau yn un o amodau'r denantiaeth. Mae hyn gan ein bod yn mynd i gostau hyd yn oes os yw unigolyn yn dewis peidio â chael pryd.

7. **C:** A yw nwyddau gwynion wedi'u cynnwys e.e. Oergell, Rhewgell, peiriant golchi, popty?

A: Na, nid yw nwyddau gwynion wedi eu cynnwys. Sylwch nad oes cyflenwad nwy gan unrhyw un o'r cynlluniau.

8. **C:** A yw'r arwyneb llawr wedi'i gynnwys?

A: Mae llawr atal llithro yn y gegin a chawod llawr gwastad / ystafell wlyb. Mae hyn yn gadael yr ystafelloedd eraill i chi eu dewis a darparu eich llawr eich hun.

Gofynnwn i chi geisio cyngor gan staff y cyfleuster cyn y dewisir gorchuddion llawr i sicrhau y gellir rhoi ystyriaeth i agor a chau drysau yn eich fflat.

9. **C:** Alla' i addurno fy fflat?

A: Gallwch, cewch chi addurno eich fflat. Fodd bynnag, pan fod yr eiddo yn un newydd, gofynnwn i chi adael cyfnod o 12 mis cyn y gwneir unrhyw waith addurno i ganiatáu i'r adeilad setlo.

10. **C:** Alla' i osod lluniau ar y waliau?

A: Gallwch, ond rhaid i chi geisio cyngor gan staff y cyfleuster cyn y gwneir hyn i sicrhau eich bod yn defnyddio'r gosodiadau cywir ac y rhoddir ystyriaeth i geblau trydan, pibellau dŵr, ac ati.

11. **C:** Alla' i gael anifail anwes?

A: Caniateir anifeiliaid anwes yn dibynnu ar bolisiau'r cynllun a'r Landlord. Holwch yn lleol.

12. **C:** Alla' i fynd allan pan rydw i eisiau ac alla' i dderbyn ymwelwyr? A all teulu aros dros nos?

A: Eich fflat yw eich cartref chi – gallwch fynd a dod fel y dymunwch chi a chael ymwelwyr pan rydych chi'n dymuno. Yn gyffredinol mae ystafell ymwelwyr ym mhob cynllun y gellir ei harchebu am swm enwol os nad oes lle gennych yn eich fflat eich hun i ffrindiau/ teulu aros dros nos.

Model Tai Gofal Ychwanegol – Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol

- 13. C:** Rwy'n cael danfoniadau rheolaidd; a fydd rhain yn cael eu cadw yn y dderbynfa i mi os nad wyf i mewn?
- A:** Na, ni all staff ar y safle gymryd cyfrifoldeb am ddanfoniadau. Nid oes staff yn ardal y dderbynfa. Os nad ydych chi i mewn, yna dylai cludwyr ac ati alw yn ôl, fel y byddai angen iddynt wneud pe baech yn byw yn unrhyw le arall.
- 14. C:** Beth ydych chi'n ei olygu gyda gofal a chymorth?
- A:** Gall gofal a chymorth amrywio o wahanol lefelau o ofal personol e.e. cefnogaeth i fynd i mewn i'r bath / cawod, i gefnogi mynediad i'r bwyty.
- 15. C:** Mae gen i fy ngofalwyr fy hun rŵan; alla' i barhau gyda nhw?
- A:** Wrth gwrs y gall eich gofalwyr presennol ddal i'ch cefnogi chi unwaith eich bod mewn cynllun.
- 16. C:** Hoffwn gyflogi glanhawr, allwn i wneud hyn?
- A:** Gallech. Nid yw staff y cynllun yn gallu darparu gwasanaeth glanhau, ond gallwch gyflogi rhywun drosoch eich hun.